




Economy & Enterprise  
Torfaen ~ inspiring business innovation


Economi a Mentergarwch  
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes





Tanysgrifiwch i'n newyddion  
a'ndigwyddiadau!  
[www.southwalesbusinessco.uk](http://www.southwalesbusinessco.uk)

# Torfaen Business Voice Llais Busnes Torfaen

# TACHWEDD 2019

 [www.twitter.com/torfaenBizcymru](https://twitter.com/torfaenBizcymru)

 [www.facebook.com/TorfaenBiz](https://www.facebook.com/TorfaenBiz)

 [www.facebook.com/TorfaenBiz](https://www.facebook.com/TorfaenBiz)

## MARCHNATA



**DIGWYDDIAD NESAF | 5:00PM**  
Dydd Iau 5 Rhagfyr 2019

## How's your 2020 vision looking?

We're a marketing agency that helps tell your brand story through design, digital and PR.

**LET'S FORM AN  
ALLIANCE** *in 2020*

office.  
01633 449885

web.  
[www.allianceagency.co.uk](http://www.allianceagency.co.uk)



## Gair gan y Cadeirydd

Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, hoffwn ddiolch i bawb a drefnodd ac a fynychodd ein digwyddiadau dros y 12 mis diwethaf. Mae un i fynd gyda'r gwaith o gynllunio ein cyfarfod Nadolig ar waith. Dylai fod yn ddiweddglo gwych i'n blwyddyn gyda llawer o rwydweithio, meithrin timau gyda balwnau (arswyd mawr) ac adloniant yr ŵyl gyda Chôr Lleisiau Torfaen.

Llawer o ddiolch i Alliance Marketing Agency am eu nodded caredig. Bydd Alliance yn ein helpu ni i gyd gyda syniadau ar sut i godi proffil eich busnes a meithrin eich brand.

Mae calendr y Flwyddyn Newydd o ddigwyddiadau yn cychwyn gyda digwyddiad am ddim ym Mwyty Pysgod a Sglodion Pages yng Nghwmbrân ar 30ain Ionawr 2020 sy'n agored i unrhyw fusnes sydd eisiau ymuno neu adnewyddu aelodaeth. Mae presenoldeb da fel rheol felly nodwch y dyddiad hwn yn eich dyddiadur.

Rydym wedi cael digwyddiadau rhagorol eleni gan gynnwys un cyfarfod yng Nglyn Ebwy i gyfarfod ein cymdogion busnes, trip i'r fan hufen iâ yn yr haf, siaradwyr difyr a llawn gwybodaeth ac, wrth gwrs, llawer o rwydweithio felly diolch i chi am gymryd rhan. Ymunwch, ail-ymunwch a lledaenwch y gair gan fod y flwyddyn nesaf yn addo mwy o arloesi, mwy o rwydweithio a mwy o gyfle i hyrwyddo eich busnes.



**Ashley Harkus**

Cadeirydd, Llais Busnes Torfaen



**Greenmeadow Golf and Country Club, Cwmbran**

## Cyfarfod Olaf y Ffwyddyn

Mae ein cyfarfod Nadolig ar ddydd Mawrth 5ed Rhagfyr, 5pm, Clwb Golff Greenmeadow, ac rydym yn falch o gyhoeddi mai Alliance Marketing Agency yw'r noddwyr ar gyfer y digwyddiad hwn.

Wedi ei leoli yng Nghasnewydd, mae Alliance yn un o brif asiantaethau marchnata De-ddwyrain Cymru, yn helpu busnesau i adrodd stori eu brand drwy gyfrwng dylunio sydd wedi ennill gwobrau, gwasanaethau digidol a chysylltiadau cyhoeddus.

Yn ystod cyflwyniad byr y noson, bydd Alliance yn cynnig cyngor defnyddiol, hawdd ei ddilyn ar sut y gall busnesau lleol roi hwb i'w hymdrechion marchnata yn barod ar gyfer 2020.

Ar ôl y cyflwyniad hwn, bydd ychydig o rowndiau o rwydweithio wedi'i hwyluso, hwyl wrth feithrin timau ac adloniant gan Gôr Lleisiau Torfaen.

Mae gan aelodau hawl i 2 le am ddim yn y digwyddiad hwn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â chydweithiwr, cleient neu gyswllt busnes gyda chi er mwyn i ni allu darparu cysylltiadau gwerthfawr i fusnesau'r naill a'r llall. Gall Aelodau Llais Busnes Torfaen hefyd ddod â baner sbonc – a fyddech cystal â nodi ar y ffurflen archebu electronig os ydych yn dod â'ch un chi.

## Archebwch Eich Lle:

<http://bit.ly/tbv-dec-2019-cy>

## Dyddiad i'ch dyddiadue

30/01/20 - Digwyddiad Recriwtio Aelodaeth  
TBV - 5:00pm - Siop Pysgod a Sglodion Page, Cwmbran

19/03/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

18/06/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

17/09/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

03/12/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm

## YN Y RHIFYN HWN:

### TUDALEN 3

Ydych chi'n defnyddio Google My Business?

### TUDALEN 5

Seiberddiogelwch yng Ngwent

### TUDALEN 6

Rheoli Enw Da

# Ydych chi'n defnyddio Google My Business?

Mae Google My Business (GMB) wedi bod ar gael i gwmnïau ei ddefnyddio AM DDIM am fwy na phum mlynedd ond mae bron i 40% o BBaCh (mentrau bach a chanolig) nad ydynt yn ei ddefnyddio o hyd, ac nid yw llawer o'r rhai sydd yn ei ddefnyddio yn gwneud defnydd llawn ohono.

Mae Gareth Waters, cyd-gyfarwyddwr Alliance Marketing yng Nghasnewydd ac aelod o fwrdd Llais Busnes Torfaen yn esbonio pam, yn ei farn ef, y mae hyn yn esgeulustod ar ran fusnesau lleol, a beth y medrwch chi ei wneud i wneud y mwyaf o'r pecyn gwych hwn i helpu ymwelwyr gael hyd i'ch cwmni pan fyddant yn chwilio arlein am fusnesau lleol fel eich un chi.

I daflu ystadegyn arall i mewn a fydd, gobeithio, yn denu eich sylw a'ch annog i ddarllen ymlaen, cyhoeddodd Google yn ddiweddar bod Google My Business wedi ei ddefnyddio ar gyfer mwy na thri biliwn o gysylltiadau uniongyrchol (yn fyd-eang) rhwng cwsmeriaid a busnesau fesul mis ynghyd â thri miliwn o archebion!

## Ydych chi'n gwybod beth yw Google My Business?

Yn fyr, mae'n wasanaeth AM DDIM a ddefnyddir gan y chwilotwr mwyaf poblogaidd yn y byd sy'n helpu busnesau lleol i arddangos pwy ydyn nhw a beth maent yn ei wneud ar Google. Mae Google yn defnyddio lleoliad i roi'r profiad gorau posibl i ddefnyddwyr. Mae'n gwneud chwilio a chael hyd i'r wybodaeth maent ei heisiau yn gyflym iawn ac yn effeithlon.

Mae Google My Business (GMB) yn berthnasol iawn ar gyfer chwilio lleol, felly pan fo rhywun yn eich ardal yn chwilio am y nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi yn eu cynnig, byddant yn gweld gwybodaeth am eich cwmni ar Google a mapiau Google. Bydd cofnod eich cwmni naill ai'n ymddangos pan fyddant yn chwilio amdanoch chi yn uniongyrchol neu'n chwilio'n gyffredinol am y nwyddau neu'r gwasanaethau rydych chi yn eu darparu.

## Ydych chi'n Postio eich Proffil GMB yn Rheolaidd?

Yn union o dan enw eich busnes ar eich proffil GMB fe welwch nodwedd lle bydd postiau rydych chi wedi eu lanlwytho i'ch cyfrif yn ymddangos. Maent ychydig yn debyg i flogiau blog byr a gellir eu defnyddio i hyrwyddo cynigion arbennig, digwyddiadau, nwyddau. Mae'n hawdd iawn postio yma a bydd Google hefyd yn dangos enghreifftiau i chi gan eich cystadleuwyr. Ychwanegwch ffotograffau neu fideos i'ch post – bydd hyn yn helpu iddo fod yn amlwg a chwipio sylw ymwelwyr.

## A yw eich Cofrestrriad GMB y diweddaraf?

Efallai bod hyn yn ymddangos yn amlwg ond a ydych

chi wedi diweddarau'r holl wybodaeth yn eich cofrestrriad GMB? Sicrhewch bod yr wybodaeth gan gynnwys enw'r busnes, manylion cyswllt, oriau agor, categorïau busnes a nwyddau/gwasanaethau yn gywir a pherthnasol.

Ydych chi'n defnyddio rhif ffôn lleol – rydym yn argymhell eich bod yn gwneud hynny.

A yw'r categorïau rydych chi yn eu defnyddio y rhai mwyaf priodol ar gyfer eich busnes? Ydych chi wedi eu blaenoriaethu yn nhrefn pwysigrwydd? A ydynt yn benodol o ran yr hyn rydych chi yn ei wneud? Peidiwch â cheisio ychwanegu gormod gan y gall hyn achosi dryswch.

## Byddwch yn Benodol ac Ychwanegwch Wybodaeth Fanwl am eich Nwyddau a'ch Gwasanaethau

Mae gan GMB swyddogaeth ddefnyddiol iawn sy'n caniatáu i chi ychwanegu nwyddau a gwasanaethau unigol i'ch proffil GMB.

Mae'r rhestr hon yn cynnwys y gallu i lanlwytho ffotograffau a disgrifiadau unigol ar gyfer pob eitem rydych chi yn ei gwerthu.

Gall bwytaï hyd yn oed ychwanegu pryddau unigol o'u bwydlen. Mae'r opsiynau sydd ar gael i chi yn helaeth ac rydym yn argymhell yn fawr eich bod yn gwneud y mwyaf ohonynt.

Mae hyn hefyd yn eich helpu i wneud eich busnes yn fwy gweladwy ac os byddwch yn diweddarau'r rhain yn rheolaidd bydd unwaith eto yn helpu i wella amlygrwydd eich rhestrriad.

## Bydd Lluniau yn Helpu i'ch Proffil Ddal Sylw

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn naturiol yn edrych ar ddarlun cyn darllen unrhyw gynnwys. Trwy ddefnyddio lluniau, gallwch gael effaith ar unwaith gydag ymwelwyr â'ch proffil GMB ac mae llawer o waith ymchwil sy'n dweud wrthym y gall busnesau gyda ffotograffau ddisgwyl derbyn oddeutu 35% o gliciau trwodd na rhai heb luniau.

**60% o ddefnyddwyr yn dweud bod canlyniadau chwilio lleol gyda delweddau da yn cipio eu sylw.** Lanlwythwch ffotograffau o'ch swyddfa (tu mewn a'r tu allan), o'ch tîm, cynnyrch, digwyddiadau ac ati.

## Gwisgwch eich Bathodyn Fferyn Lleol gydag Anrhydedd

Cyhoeddwyd yn ddiweddar gan Google y bydd y 5% uchaf o fusnesau lleol yn derbyn bathodyn 'Local Favourite'. I wneud yn siŵr eich bod yn gwneud y mwyaf o'ch cyfle i gyflawni hyn a chael mwy o welededd, dylech fuddsoddi eich amser a'ch ymdrechion yn sicrhau bod eich proffil

GMB yn gyflawn, yn cael ei ddiweddarau a'ch bod yn defnyddio cymaint o'i swyddogaethau ag y bo modd.

## Adolygiadau

Peidiwch ag ofni gofyn i'ch cwsmeriaid adael adolygiad o'ch busnes ar eich proffil GMB. Mae adolygiadau yn ffordd wych o gael hyder y sawl sydd yn y farchnad neu'n chwilio am y nwyddau a'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig, ond mae hefyd yn helpu o ran lle rydych yn ymddangos mewn canlyniadau chwilio lleol. Cofiwch ateb pob adolygiad, boed yn dda neu'n ddrwg gan ei fod y dangos i eraill eich bod yn gofalu am eich cwsmeriaid. Po fwyaf yr adolygiadau 5 seren a gewch, po fwyaf y cliciau trwodd y byddwch yn eu derbyn gan eu bod yn cael eu harddangos yn amlwg ar eich proffil.

Rhag ofn eich bod yn dal yn amheus ynglŷn â phwysigrwydd adolygiadau, cofiwch bod 80% o ddefnyddwyr yn ymddiried mewn adolygiadau arlein gymaint ag argymhellion personol a bod traean o gwsmeriaid yn dweud eu bod yn barnu busnes ar sut y mae'n ymateb i adolygiad.

## Cadw ar y Blaen o'ch Cystadleuwyr trwy Gadw i Fyny gyda Swyddogaethau Newydd GMB

Mae GMB wastad yn esblygu ac mae Google wastad yn ychwanegu nodweddion newydd i chi fanteisio arnynt. Peidiwch ag ofni rhoi cynnig ar y nodweddion newydd, a gallwch hefyd wneud eich ymchwil eich hun i weld beth sy'n cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Cwestiynau ac Atebion Google



Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae hon yn nodwedd holi ac ateb ar eich rhestrriad sy'n rhoi cyfle i ymwelwyr ofyn cwestiynau.

Mae hwn hefyd yn gyfle gwych i gael mwy o welededd, a gallwch ychwanegu eich cwestiynau a'ch atebion eich hyn, gan eich galluogi i ychwanegu mwy o gynnwys perthnasol a chynorthwyo gyda'ch amlygrwydd mewn chwiliadau lleol!

Nid yw llawer o gwmnïau yn edrych ar yr adran holi ac ateb ar eu rhestrriad GMB, sy'n gangymeriad oherwydd gall unrhyw un ateb cwestiynau a darparu pob math o wybodaeth, a all fod yn anghywir neu'n rhywbeth nad ydych eisiau ei gyfleu i ddarpar gwsmeriaid!!!

Edrychwch ar eich adran holi ac ateb yn rheolaidd a cheisio rhoi atebion prydlon a chywir i'r cwestiynau.

**Felly, dyna ni. Rydym yn gobeithio bod hyn wedi eich argyhoeddi o'r gwerth y gallai GMB ei roi i'ch busnes. Yr unig fuddsoddiad sydd ei angen gennych yw amser, a gallai'r manteision fod yn arwyddocaol.**



# Sut i gael sylw da yn y wasg ar gyl lideb fechan: 4 cam syml

## Buddsoddi mewn delweddau gwych

Buddsoddwch mewn set o ffotograffau proffesiynol, ohonoch chi a'ch cynnyrch. Byddant yn ased amhrisiadwy, hirdymor. Gallwch eu defnyddio mewn cymaint o leoedd gan gynnwys eich gwefan, ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, mewn deunydd wedi'i argraffu, mewn cyflwyniadau ac, yn bwysig, byddant yn eich helpu i gael sylw da yn y wasg. Mae ffotograffau o ansawdd uchel yn golygu y gall gohebwyr roi mwy o le i'ch erthygl, sy'n golygu mwy o sylw i'ch busnes!

## Dysgu sut i ysgrifennu datganiad da i'r wasg

Os ydych eisiau cael cyfle o gael eich cyhoeddi gan gyfryngau awdurdodol, gan gynnwys teitlau lleol/rhanbarthol a theitlau penodol, mae angen i chi astudio a dysgu sut mae straeon yn y newyddion yn gweithio. Dylech gynnwys pennawd sy'n berthnasol i'r sawl sy'n darllen. Mae angen ysgrifennu'r stori yn y trydydd person. Byddwch hefyd eisiau cynnwys dyfyniad, neu ddyfyniadau gan berchennog y busnes – chi! Efallai ei fod yn teimlo'n rhyfedd, ond dyna sut bydd yr erthygl yn cael ei chyhoeddi, i arbed gwaith i'r gohebydd. Yn olaf, cynhwyswch ddolen i'ch safle a rhyw fath o gyfiawnhad golygyddol i'r gohebydd ei gadael yn y stori – er enghraifft disgownt i ddarllenwyr neu ddigwyddiad sy'n dod.

## Canfod safbwynt y darllenwydd

Ystyriwch y darllenwyr. Fel busnes newydd neu fusnes bach, efallai mai'r stori, yn syml, yw eich bod wedi lansio, ond eisoes bydd nifer o bartïon â diddordeb. Efallai y bydd gan bobl yn eich ardal ddiddordeb mewn gwybod bod busnes newydd yn lansio yn agos atynt, felly cynhwyswch bapurau lleol a sianeli radio ar eich rhestr ddsbarthu. Awgrym: mae prifysgolion a cholegau yn hoffi clywed am gyn-fyfyrwyr llwyddiannus, ac mae eu safleoedd nhw yn awdurdodol ac yn lle gwych i gael eich cyhoeddi. Addaswch eich datganiad fel ei fod yn berthnasol i bawb sy'n darllen, ac anfonwch ffotograff neu ddau o ansawdd da gyda'r erthygl.

## Cadw i fynd

Meddylwch am beth fyddai'r cynulleidfaoedd hynny yn hoffi ei wybod nesaf. Efallai bod pethau cyffrous yn digwydd yn eich cwmni. Efallai bod rhywun enwog wedi defnyddio eich cynnyrch ac wedi rhoi adborth gwych, neu efallai bod gweithiwr neu gwsmer wedi gwneud rhywbeth hynod neu wedi mynd yn wyllt ar y cyfryngau cymdeithasol. Efallai y gallwch ddechrau creu straeon, trwy wneud arolygon neu baratoi ffeithluniau sy'n ddefnyddiol ac yn berthnasol i'ch marchnad. Bob tro, meddylwch am gynulleidfaoedd newydd a allai fod â diddordeb – gyda stori wych gallai eich busnes gael sylw yn y wasg genedlaethol.

# Ceisio am Wobrau - Ymffrost neu Gallineb Busnes?

Beth y mae ceisio am a, gobeithio, ennill gwobr yn ei olygu i'n busnes? Ai ymffrost yn unig ydyw neu a yw'n synnwyr busnes da? Mae Laura Waters, cyd-gyfarwyddwr Solar Buddies yn rhannu ei themladau hi. Rydym wedi bod yn ffodus yn ennill ychydig o wobrau ers i ni lansio Solar Buddies yn 2011. Yn naturiol, rydym yn hynod falch o'r llwyddiannau hyn ac rydym ar hyn o bryd yn dal i ddathlu ar ôl dysgu bod Kelli, fy mhartner busnes wedi ei henwi fel terfynwr yng Ngwobrau Everywoman NatWest 2019. Cydnabyddiaeth haeddiannol a gwerthfawrogiad o'ch gwaith caled a sut rydych wedi gwneud gwahaniaeth, boed fel unigolyn neu fel busnes. Mae llawer ohonom sy'n ymdrechu bod dydd i wneud ein gorau i'n cwsmeriaid. Rydym oll wedi ein cymell ac rydym yn caru'r hyn rydym yn ei wneud. Mae ennill neu gael ein rhoi ar restr fer ar gyfer gwobr yn gadarnhad, neu efallai y gellir ei weld fel cymeradwyaeth gan feirniaid gwobrau sydd yn aml yn arbenigwyr yn y diwydiant neu gan eich cwsmeriaid.

## Sefyll allan o gymharu â'ch cystadleuwyr

Mewn byd mor gystadleuol, gall ennill neu hyd yn oed bod ar y rhestr fer eich helpu i sefyll allan. Mae'n eich gwneud yn unigryw ymhlith eich cystadleuwyr. Rydym oll yn gwneud busnes mewn byd cystadleuol dros ben lle mae ein darpar gleientiaid a'n cwsmeriaid yn wynebu

penderfyniad anodd o ran pwy i brynu ganddynt. Mae cymaint o ddewis ac mae cael gwobr sydd wedi ei chydnabod gan y diwydiant yn gallu eu helpu i benderfynu gan bwy i brynu.

## Cyfle i ddiolch i'r rhai rydych yn gweithio gyda nhw

Os ydych yn ennill gwobr, pam na gymerwch y cyfle i ddiolch i'ch cydweithwyr am eu hymdrechion? Mae dweud 'diolch' yn gallu cymell pobl gan fod pawb mewn cwmni eisiau teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## Denu gweithwyr newydd

O ran denu gweithwyr newydd, gall gwobrau fod yn ddefnyddiol iawn gan eu bod yn anfon neges glir i ddarpar weithwyr, bod eich busnes chi yn fusnes gwych i weithio iddo. Pwy na fyddai eisiau gweithio i fusnes llwyddiannus, uchel ei barch? I gloi, mae ennill gwobr yn y diwydiant, neu gael eich rhoi ar restr fer am un, yn ddi-os yn newyddion da. Felly, peidiwch â'i gadw'n dawel. Rhannwch y newyddion gyda chymaint o bobl ag y gallwch. Cynhwyswch yr wybodaeth yn eich cyflwyniadau gwerthu a'ch gweithgareddau marchnata. Rhowch yr wybodaeth ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol rydych yn eu defnyddio a rhowch o ar eich papur pennawd, troednodyn ebost ac ar eich gwefan.

# Rheoli Enw Da

## Rheoli Enw Da

Mae sicrhau fod gennych chi enw da mewn busnes yn hanfodol. Yn wreiddiol yn derm cysylltiadau cyhoeddus, mae rheoli enw da yn golygu prosesau i reoli enw da busnes yn effeithiol. Yn y byd rhyngweithiol a digidol newidiol sydd ohoni, a gyda thwf y rhyngwrwd fel teclyn ar gyfer lleisio barn a rhoi adolygiadau, mae'r hyn y mae pobl yn dweud am eich busnes a'ch brand a sut mae hyn yn dylanwadu ar eraill yn fwy pwysig nag erioed. Rheoli Enw Da Ar-lein (RhEDA) yw'r arfer o geisio ffurfio delwedd gyhoeddus cwmni ar-lein.

## Pa bryd fyddwch chi angen RhEDA

- Adolygiadau gwael gan gwsmeriaid anfodlon ynglŷn â'u profiadau gyda'ch cwmni
- Sylwadau niweidiol gan ddefnyddwyr, cwsmeriaid neu staff sy'n anfodlon
- Cynnwys niweidiol ynglŷn â'ch brand
- Er mwyn rheoli presenoldeb eich cystadleuaeth neu ddosbarthwyr diawdurdod, fel y rheiny sydd ag enw tebyg i'ch un chi ar eu gwefan

Er nad oes modd cael gwared ar raddau neu gynnwys trafferthus yn gyfan gwbl, mae RhEDA da yn golygu rhoi canlyniadau chwilio cadarnhaol yn lle rhai negyddol. Gall darnau trafferthus gael eu symud i lawr, neu i fwrdd o'r dudalen fwyaf pwysig – tudalen flaen Google. Gyda RhEDA da, gallwch reoli presenoldeb eich brand ar beiriannau chwilio allweddol a chreu rhestrau mwy cadarnhaol.

## Proses rheoli enw da

Atgyweirio - Edrych ar ble mae'r problemau sy'n effeithio ar eich enw da a chywiro'r niwed.

Ailadeiladu ac adfer - Gan ddefnyddio Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) a thechnegau cysylltiadau cyhoeddus, gan gynnwys postio ar flogiau a dosbarthu datganiadau i'r wasg, er mwyn ailadeiladu eich enw da ar-lein a chladdu storïau a chynnwys negyddol ymhellach i lawr dudalennau canlyniadau peiriannau chwilio.

Cynnal – Parhau i fonitro SEO i sicrhau cynnal enw da.

## Strategaethau rheoli enw da ar-lein

- Dileu blogiau ar bynciau sy'n amherthnasol i'ch busnes
- Creu dolenni at bob tudalen o gynnwys er mwyn cryfhau cysylltiadau mewnol
- Creu tudalen ar safle sy'n benodol ar gyfer adolygiadau cadarnhaol am eich cwmni
- Mireinio agweddau technegol tudalennau, fel teitlau meta a disgrifiadau meta er mwyn cysylltu'n well â sut mae eich cynulleidfarn chwilio
- Newid strwythur eich tudalen fel bo cynnwys sy'n ddwfn yn eich safle yn dod yn fwy hygyrch

Mae'r strategaethau oddi ar y tudalen yn cynnwys:

- Adeiladu cysylltiadau o'ch safle tuag at gynnwys cadarnhaol ynglŷn â'ch brand ar safleoedd eraill
- Creu cynnwys newydd trwy flogiau ac erthyglau ar gyfer blogwyr sy'n berthnasol i fusnes a safleoedd awdurdodol, gyda dolenni at eich gwefan
- Creu ymgyrch cyhoeddusrwydd neu ddosbarthu datganiadau i'r wasg ynglŷn â newyddion eich cwmni a datblygiadau, gyda dolenni perthnasol at eich safle.



# Sut i farchnata busnes gwasanaeth: yr ABC

Pan fyddwch yn darparu gwasanaeth megis hyfforddi, ymgynghori neu hyfforddi, rydych yn gwerthu rhywbeth na ellir ei weld, fel y gellir gweld cynnyrch. Mae'n anoddach i'ch cwsmeriaid gymharu eich gwasanaethau chi gyda rhai cystadleuwyr. Rydych mewn gwirionedd yn eich hyrwyddo chi eich hun – eich amser, eich arbenigrwydd a'ch profiad.

## Atgyfeiriadau – gofynnwch amdanynt

Pan fyddwch yn darparu gwasanaeth, rhaid i gleientiaid wybod amdanoch ac ymddiried ynddoch cyn y byddant yn prynu gennych. Maent yn fwy tebygol o alw os bydd rhywun yn eich argymhell.

- Gofynnwch am atgyfeiriad pan fydd rhywun yn dweud "diolch". Gall fod yn gleient rydych newydd eu helpu, neu ddarpar gwsmer sy'n gofyn i chi am gyngor
- Bod tro rydych yn cael atgyfeiriad, anfonwch air o ddiolch personol at y person sydd wedi eich argymhell. Pan fydd argymhelliad yn troi'n waith, anfonwch rywbeth arall i ddiolch i'r sawl sydd wedi eich atgyfeirio.
- Ffordd wych o gael atgyfeiriadau yw eu rhoi nhw. Byddwch yn hael a meddyliwch am bwy y medrwrch gysylltu gyda nhw. Pryd roesocho atgyfeiriad ddiwethaf? Pwy allech chi eu hargymhell nawr?

## Busnes - rhwydweithio

Mae rhwydweithio yn ffordd wych o gyfarfod darpar gleientiaid. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt ddod i'ch adnabod, i benderfynu os ydych chi'n rhywun y gallent weithio gyda nhw.

- Mae ystod anferth o ddigwyddiadau y gallech eu mynychu, ac mae'n hawdd gwastraffu amser ac arian yn mynd i'r cyfarfodydd anghywir. Chwiliwch am y rhai sy'n denu eich cleientiaid delfrydol.
- Rhowch y gorau i werthu. Mae gormod o berchnogion busnes yn ceisio eu gwerthu nhw eu hunain wrth rwydweithio. Pan fyddwch yn cyfarfod rhywun am y tro cyntaf, gofynnwch gwestiynau a dod i'w hadnabod. Cynigiwch gyngor am ddim neu eu rhoi



mewn cysylltiad â chysylltiadau da eraill.

- Mae rhwydweithio yn golygu meithrin perthynas, dod i adnabod pobl dros amser a meithrin ymddiriedaeth. Ewch i ddigwyddiadau a chadw mewn cysylltiad gyda'r bobl rydych yn eu cyfarfod.

## Cynnwys

Sut allwch chi ddefnyddio cynnwys i hybu eich busnes?

- Ysgrifennwch am yr hyn rydych yn gwybod amdano. Mae rhannu gwybodaeth a phrofiad mewn geiriau yn dangos eich bod yn gwybod am eich pwnc. Rhannwch eich arbenigrwydd drwy gylchlythyrau ebost, blogiau, erthyglau arlein ac yn y cyfryngau cymdeithasol.
- Siaradwch am yr hyn rydych yn ei wybod. Pryd bynnag y byddwch ar lwyfan, gwnewch fideo a rhoi'r fideo ar eich gwefan. Crëwch glipliau fideo byr yn rhoi cyngor.
- Ysgrifennwch lyfr. O'i wneud yn dda, gall llyfr ddod yn arf hyrwyddo grymus.

Os yw'r gyllideb yn dynn, cadwch at y gweithgareddau hyn, a medrwrch elwa'n dda ar eich buddsoddiad.

## Cyfarfod Recriwtio LGBT:

Dydd Iau 30ain Ion yn 5pm

Siop Pysgod a Sglodion Page, Cwmbran

E-bost: [info@southwalesbusiness.co.uk](mailto:info@southwalesbusiness.co.uk)



# Cwrdd â'r Aelod



**Tom Watkins**

"Fel un o'r pedwar rhanbarth rygbi proffesiynol yn Ne Cymru, mae Rygbi'r Dreigiau yn cynrychioli ardal ddaearyddol eang sy'n cwmpasu bro hanesyddol Gwent. Mae'r rhanbarth hwn yn cefnogi'r fintai fwyaf o glybiau rygbi (73 i gyd) yng Nghymru gan gynnwys clybiau enwog fel Casnewydd, Pont-y-pŵl a Glynebwy. Yn 2016 fe wnaeth y rhanbarth adnewyddu'r brand a'r busnes fel rhan o'r model perchnogaeth newydd gan newid o 'Ddreigiau Casnewydd Gwent' i 'Rygbi'r Dreigiau.

Trwy ymdrechion eang adran gymunedol y Dreigiau, mae rygbi'r Dreigiau yn parhau i fod yn driw i'w werthoedd, sef cefnogi datblygiad y gêm ar lawr gwlad a rhoi cyfleoedd i bawb yn y rhanbarth. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at lwyddiant Academi'r Dreigiau, lle mae'r rhanbarth yn parhau i hyrwyddo 'Ffordd y Dreigiau' sydd wedi eu sefydlu ar werthoedd hanesyddol rygbi Gwent a datblygu pobl ifanc ar y cae ac oddi arno. Er gwaethaf y



twf masnachol parhaus ac ymgysylltiad ehangach, bydd sylfeini'r Dreigiau bob amser yn parhau i ganolbwyntio ar dalent leol ifanc o'r rhanbarth, ac adeiladu arno.

Fel rheolwr datblygu busnes y rhanbarth, fy ngwaith yw cysylltu â busnesau o'n hardal a sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w hyrwyddo i'w llawn botensial. Mae yna amrywiaeth enfawr o opsiynau wrth weithio gyda thîm chwaraeon proffesiynol, o ymwybyddiaeth o frand, i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol trwy gefnogi ein mentrau cymunedol.

Os oes gan unrhyw un o'r busnesau ddiddordeb mewn siarad â mi am sut y gall gweithio gyda'r dreigiau fod o fudd i'w busnes, mae fy nrws yn Rodney Parade bob amser ar agor ac mae'r tegell ymlaen bob amser. "

## Cysylltwch

**E-bost:** tom.watkins@dragonsrugby.wales

**Ffôn:** 07538 210128

Hoffem ddiolch i'n cyfranwyr:



**ALLIANCE**



# Aelodau Newydd

**MHE Training Resources Ltd**

@MHETrainingResources

**Netfit Communications Limited**

www.Netfit-Communications.co.uk

**Poppy Marketing**

@poppymarketing